

AMODAU A THELERAU

1. Mae'r gystadleuaeth yma yn cael ei threfnu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
2. Mae'r gystadleuaeth yn agored i bobl sy'n dysgu Cymraeg ar bob lefel dysgu – gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'i darparwyr cyrsiau, neu gyda darparwyr eraill.
3. Rhaid i ymgeiswyr ysgrifennu cerdyn post Cymraeg am eu gwyliau (dychmygol neu 'go iawn').
4. Rhaid postio'r cerdyn mewn amlen at Criw Dysgu Cymraeg, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Heol y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EP, gan gynnwys manylion cyswllt y dysgwr (rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost).
5. Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am dalu i bostio'r cais; nid yw'r Ganolfan yn gyfrifol am unrhyw geisiadau sy'n mynd ar goll. Ni fydd y Ganolfan yn dychwelyd unrhyw geisiadau.
6. Ddylai ceisiadau ddim cynnwys deunydd difenwol, anwedus, sarhaus, neu unrhyw ddeunydd anaddas arall. Rhaid i'r ceisiadau fod yn addas i'w cyhoeddi ar-lein gan y Ganolfan.
7. Mae ymgeiswyr yn cadw'r hawlfraint yn eu ceisiadau ond yn rhoi trwydded anghyfyngol, ddi-freindal am byth i'r Ganolfan gyhoeddi ar-lein a phostio'r cais ar unrhyw blatfformau.
8. Drwy gyflwyno'r cerdyn post, mae'r ymgeisydd yn cytuno y gall y Ganolfan, yn ôl ei disgrisiwn ei hun, addasu, cwtogi neu gyfieithu'r cais.
9. Caiff y cerdiau eu beirniadu gan staff addysgu'r Ganolfan; bydd tri enillydd yn cael cynnig cwrs blwyddyn am ddim, sy'n dechrau ym mis Medi 2022.
10. Mae penderfyniad y Ganolfan yn derfynol.
11. Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i wahardd unrhyw gais sy'n torri unrhyw un o'r Telerau a'r Amodau hyn, neu i gadw gwobr yn ôl os yw o'r farn nad yw'r ceisiadau yn cyrraedd y safon ofynnol.
12. Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i ddiwygio'r Telerau a'r Amodau hyn neu i ganslo'r gystadleuaeth unrhyw bryd os yw o'r farn ei fod yn angenrheidiol gwneud hynny, neu os yw amgylchiadau'n codi y tu hwnt i'w rheolaeth.
13. Y dyddiad cau yw 31 Awst 2022.